Yn ogystal, nodaf sylwadau'r Pwyllgor ynglŷn â Rhan 2 o'r Bil (Tybaco a Chynhyrchion Nicotin), a'r gwahaniaeth barn ymhlith aelodau'r Pwyllgor mewn ymateb i'n cynigion i gyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn mannau cyhoeddus caeedig. Yn absenoldeb argymhellion penodol ynglŷn â Rhan 2 o'r Bil, mae'r ymateb isod yn nodi fy safbwynt mewn perthynas â sylwadau'r Pwyllgor.

Triniaethau arbennig

Mae saith argymhelliad cyntaf y Pwyllgor oll yn ymwneud â'r system trwyddedu triniaethau arbennig a gynigir yn Rhan 3 o'r Bil. Mae'n dda gennyf gadarnhau fy mod yn derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion ac yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor i ddeddfu yn y maes hwn. Mewn perthynas ag **Argymhelliad 1**, cytunaf y bydd prosesau monitro a gwerthuso trylwyr yn rhan annatod o lwyddiant y cynllun trwyddedu triniaethau arbennig. Mae fy swyddogion eisoes yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i orfodi'r ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn ag aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis, lliwio'r croen yn lled-barhaol a thatwio, a byddai hyn yn parhau yn sgil cyflwyno'r drefn drwyddedu newydd. Felly, bu'n fwriad gennyf o'r cychwyn weithio gydag awdurdodau lleol i fonitro llwyddiant y cynllun trwyddedu. Caiff canllawiau eu paratoi hefyd i helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Bil. Felly **derbyniad** yr argymhelliad hwn ac rwy'n fodlon datgan ar goedd fy ymrwymiad i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol ar y mater hwn.

Mae **Argymhelliad 2** yn galw am wneud gwelliannau i'r Bil gyda'r nod o gryfhau prosesau cadw cofnodion a darparu ar gyfer hysbysu awdurdodau lleol pan fydd angen i unigolyn gael ei drin o ganlyniad i driniaeth arbennig. Cytunaf fod hwn yn fater pwysig ac rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei godi yn ei adroddiad. Mae i hysbysiadau ddiben pwysig o ran galluogi ymchwiliad, asesiad risg ac ymateb buan i achosion o glefyd heintus a halogi sy'n achosi risg sylweddol, neu a allai achosi risg sylweddol, i iechyd pobl. Mae'r digwyddiadau diweddar yng Nghasnewydd a fu'n gysylltiedig â mangre a oedd yn tyllu'r corff ac yn tatwio yn atgyfnerthu'r angen am i wybodaeth gael ei darparu i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu gwneud cysylltiadau priodol ac ymchwilio pan fo problem.

Felly, **derbyniad** yn llawn **yr egwyddor** sy'n sail i'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, bwriadaf weithredu ar y mater hwn mewn ffyrdd heblaw am welliant i'r Bil hwn. Mae deddfwriaeth eisoes yn bodoli ar ffurf Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr meddygol cofrestredig a labordai hysbysu awdurdod lleol pan fyddant yn amau neu'n canfod clefyd hysbysadwy neu gyfrwng achosol. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn galluogi'r awdurdod lleol, ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ymchwilio i'r achos os bydd angen. Gan fod y ddeddfwriaeth hon yn uniongyrchol berthnasol i'r mater sy'n sail i argymhelliad y Pwyllgor, byddaf yn ymchwilio i ddichonoldeb diwygio'r rheoliadau hyn er mwyn gwella'r wybodaeth sydd ar gael i

awdurdodau lleol mewn perthynas â heintiau neu glefydau y gellir eu priodoli i driniaethau arbennig. Hyderaf y bydd y cam gweithredu hwn yn bodloni'r Pwyllgor.

Rwyf wedi nodi gyda diddordeb yr ystyriaeth fanwl gan y Pwyllgor i briodoldeb y pedair triniaeth a gwmpesir gan y cynllun trwyddedu. Croesawaf gasgliad y Pwyllgor bod y risg bosibl o niwed sy'n gysylltiedig â thriniaethau aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio yn ddigon i gyfiawnhau eu cynnwys. Mae **Argymhellion 3 a 4** ill dau yn galw arnaf i ystyried ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig a gynhwysir ar wyneb y Bil, ond mewn perthynas â dau gategori gwahanol iawn o driniaeth. Ar ôl imi eu hystyried ymhellach, ni allaf dderbyn yr argymhellion hyn a **gwrthodaf** y ddau, am y rhesymau a amlinellir gennyf isod ac a drafodwyd gennyf gyda'r Pwyllgor yn flaenorol.

Mewn perthynas â'r mathau o driniaeth addasu'r corff y cyfeirir atynt yn **Argymhelliad 3**, mae adroddiadau y gallai triniaethau addasu'r corff, megis rhannu'r tafod, digroeni a brandio achosi niwed i iechyd yn achos pryder imi. Fodd bynnag, credaf o hyd na ddylai triniaethau o'r fath gael eu hychwanegu heb inni ddeall y dystiolaeth yn well ac, yn benodol, y risgiau sy'n gysylltiedig â hwy. Byddwn hefyd yn pryderu, drwy eu cynnwys yn y system drwyddedu, y gellid ystyried ein bod yn eu dilysu ac yn eu gwneud yn fwy derbyniol yn gymdeithasol. Bwriadaf ymgymryd â gwaith pellach, gydag awdurdodau lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i gasglu ac asesu gwybodaeth am y triniaethau hyn a pha mor gyffredin ydynt yng Nghymru. Ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau, byddai'r pŵer i wneud rheoliadau sydd ar gael yn y Bil yn caniatáu i'r rhestr o driniaethau arbennig gael ei diwygio yn y dyfodol, os tybir bod hynny'n briodol.

Mae **Argymhelliad 4** yn cyfeirio'n benodol at driniaethau cosmetig anlwfeddygol fel y'u hystyrir gan Adolygiad Syr Bruce Keogh o Reoleiddio Ymyriadau Cosmetig. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am y dystiolaeth a gasglwyd ar y mater hwn, ac yn rhannu siom y Pwyllgor ynghylch y diffyg cynnydd ymddangosiadol o ran rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith. Fodd bynnag, credaf o hyd mai'r peth gorau fyddai cydweithio â Llywodraeth y DU. Gan gadw hyn mewn cof, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ar 8 Rhagfyr yn gofyn am y diweddaraf ar gynnydd ar unwaith. Os na fydd yr ymateb yn rhoi digon o sicrwydd imi ynglŷn â chynigion Llywodraeth y DU i reoli'r triniaethau hyn, byddaf yn ystyried camau gweithredu eraill. Gallai'r rhain gynnwys ystyried defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau y bydd y Bil yn ei ddarparu er mwyn diwygio'r rhestr o driniaethau arbennig yn y dyfodol. Efallai y bydd angen hefyd ystyried rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ymhellach yn y cyd-destun hwn, a byddwn yn ystyried hyn yn ofalus wrth inni ddadansoddi ymatebion i'r Papur Gwyrdd 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd'. Yn ogystal â'r camau a amlinellir gennyf uchod, wrth wrthod yr argymhellion i ychwanegu at y rhestr bresennol o driniaethau arbennig ar wyneb y Bil, rwyf yn ystyriol iawn o'r angen i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau ac arbenigedd i orfodi'r ddeddfwriaeth newydd i bob pwrpas. Yn fy marn i, ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig yn raddol fyddai fwyaf priodol, gan y bydd hyn yn rhoi amser i awdurdodau lleol ymgorffori'r gweithgarwch newydd ar gyfer y pedair triniaeth gyntaf, cyn bod triniaethau eraill yn cael eu hychwanegu i'r system drwyddedu.

Rwyf yn fodlon **derbyn egwyddor Argymhelliad 5**, sy'n galw am i'r cynllun trwyddedu triniaethau arbennig sicrhau bod deiliaid trwyddedau yn cael hyfforddiant ar bynciau penodol. Bwriadaf ymdrin â'r argymhelliad hwn mewn ffordd sydd hefyd yn mynd i'r afael ag argymhelliad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i gynnwys rhai amodau a meini prawf trwyddedu sylfaenol, craidd ar wyneb y Bil (Argymhelliad 5

adroddiad y Pwyllgor hwnnw). Yn unol â hynny, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau i roi rhai pynciau craidd ar wyneb y Bil, y bydd yn rhaid i reoliadau a wneir ynglŷn â'r amodau a'r meini prawf trwyddedu eu cwmpasu.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus **Argymhelliad 6** mewn perthynas â chyflawni triniaeth arbennig ar unigolyn sy'n feddw neu sydd fel arall yn methu â chydysynio i'r driniaeth. Cytunaf yn llwyr na ddylai ymarferwyr roi triniaeth arbennig i unigolyn o dan amgylchiadau o'r fath, ac felly **derbyniad egwyddor** yr argymhelliad. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1, amlinellais nifer o fesurau diogelu y bwriadaf eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd y rhain yn cynnwys creu amod trwyddedu penodol i atal deiliad y drwydded rhag cyflawni triniaeth ar berson a all fod o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, a chreu amod trwyddedu lle y byddai angen i'r unigolyn sy'n cael y driniaeth gadarnhau nad oedd o dan ddylanwad cyffuriau nac alcohol. Credaf o hyd fod y camau hyn yn briodol, ond yng ngoleuni argymhelliad y Pwyllgor, rwyf wedi cyflwyno gwelliant i'r Bil yn benodol er mwyn nodi y caiff y mater hwn ei gwmpasu yn yr amodau trwyddedu. Bydd hyn yn cyflawni'r un amcan polisi ag y mae argymhelliad y Pwyllgor yn ceisio ei gyflawni, gan y bydd torri amodau trwyddedu'n drosedd. Byddai fy ngham gweithredu arfaethedig hefyd yn osgoi dryswch yn y gyfraith droseddol, a allai gael ei achosi drwy greu trosedd benodol o gyflawni triniaeth arbennig ar bobl sy'n feddw yn y Bil hwn. Os na all unigolyn roi cydsyniad dilys, mae eisoes yn drosedd, er enghraifft ymosodiad cyffredin neu ymosodiad sy'n achosi niwed corfforol gwirioneddol, i gyflawni triniaeth (megis tatŵ) arnynt.

Yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1, nodais fy mwriad i ailystyried lefel y dirwyon sy'n gysylltiedig â throseddau o dan adran 67 o'r Bil. Roedd mewn ymateb uniongyrchol i'r dystiolaeth argyhoeddiadol a roddwyd yn ystod Cyfnod 1 fod angen cosbau llymach am droseddau sy'n ymwneud â'r triniaethau arbennig, er mwyn cynnig arf ataliol ddigonol ac adlewyrchu eu difrifoldeb yn well. Mae'n dda gennyf **dderbyn Argymhelliad 7** ac rwyf wedi cyflwyno gwelliant i gynyddu'r gosb am drosedd o dan Ran 3 o'r Bil, o ddirwy lefel 3 i ddirwy heb derfyn. Bydd y ddirwy 'heb derfyn' gan fod y terfyn uchaf sy'n gysylltiedig â'r hyn a elwid gynt yn ddirwy 'Lefel 5' wedi cael ei ddileu gan Lywodraeth y DU. Bydd cynyddu lefel y ddirwy hefyd yn sicrhau cysondeb â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwelyau haul, y cyfeiriodd nifer o randdeiliaid ati fel sefyllfa debyg yn eu tystiolaeth yn ystod Cyfnod 1.

O ran mater cysylltiedig, gallaf hefyd gadarnhau fy mod wedi cyflwyno gwelliant cyfatebol i gynyddu lefel y ddirwy sy'n gysylltiedig â throseddau o dan Ran 4 o'r Bil (Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff).

Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff

Gwnaeth y Pwyllgor dri argymhelliad mewn perthynas â Rhan 4 o'r Bil, sy'n gwahardd rhoi neu wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn o dan 16 oed.

Croesawaf gefnogaeth y Pwyllgor i'r rhan hon o'r Bil, a chefnogaeth y mwyafrif llethol o dystion a roddodd dystiolaeth yn ystod Cyfnod 1. Rhannaf bryder y Pwyllgor ynglŷn â'r achosion o roi twll mewn rhan bersonol o gorff pobl ifanc o dan 16 oed, sy'n atgyfnerthu'r angen am y ddeddfwriaeth hon. Croesawaf hefyd gydnabyddiaeth y Pwyllgor o'r rhesymeg dros osod y cyfyngiad yn 16 oed yn hytrach na 18 oed.

Derbyniad y tri argymhelliad a byddaf yn ymateb yn gadarnhaol i bob un ohonynt. Mewn ymateb i **Argymhelliad 8**, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau i'r Bil yn benodol er mwyn ei

gwneud yn ofynnol i'r amodau trwyddedu gorfodol y darperir ar eu cyfer yn adran 52 (o dan y rhan o'r Bil sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig) gynnwys gofyniad prawf oedran. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r darpariaethau ynglŷn â phrawf oedran ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, a bydd hefyd yn fuddiol yn yr ystyr ei fod yn cymhwyso'r cyfyngiad presennol ar oedran o ran tatwio. Bwriadaf hefyd y bydd adran 78 o'r Bil yn adlewyrchu'r amddiffyniad yn adran 146 o Ddeddf Trwyddedu 2003, gan ymhelaethu felly ar yr amddiffyniad presennol yn adran 78(3). Bydd hyn yn darparu, os bydd person sy'n rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran unigolyn, y bydd amddiffyniad bod y person a gyhuddir o drosedd wedi arfer diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi ei chyflawni.

Yn sgil yr ymrwymadau a wneuthum i'r Pwyllgor o'r blaen, derbyniaf **Argymhelliad 9** mewn ymateb i'r dystiolaeth glir gan dystion bod rhoi twll yn y tafod yn achosi risgiau penodol i iechyd, er enghraifft oherwydd y risg o gymhlethdodau ac achosi niwed i'r dannedd. Felly rwyf wedi cyflwyno gwelliant i ychwanegu'r tafod at y rhestr o rannau personol o'r corff lle y bydd gwaharddiad ar dyllu corff plentyn o dan 16 oed. Rwyf yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth ar y mater hwn sydd wedi arwain at y newid pwysig hwn i'r Bil, a fydd yn diogelu plant yng Nghymru ymhellach rhag niwed y gellir ei osgoi.

Rwyf hefyd wedi dweud wrth y Pwyllgor o'r blaen y byddwn yn fodlon diwygio Memorandwm Esboniadol y Bil er mwyn nodi'n gliriach y gwahaniaethau rhwng y triniaethau a gwmpesir gan Ran 4 o'r Bil a'r troseddau a gwmpesir gan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Mae diben Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 yn wahanol iawn i ddiben y darpariaethau ynglŷn â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), gan fod Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn cynnwys tynnu rhan o organau cenhedlu allanol benywod, neu'r cyfan, am resymau diwylliannol neu resymau nad ydynt yn rhai therapiwtig. Byddaf yn ymhelaethu ar y gwahaniaeth rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig pan gaiff ei baratoi ar ôl trafodion Cyfnod 2. Felly rwy'n fodlon derbyn **Argymhelliad 10** yn llawn.

Gwasanaethau fferyllol

Croesawaf gefnogaeth y Pwyllgor i'r rhan hon o'r Bil, yn enwedig o ystyried ei ddiddordeb brwd mewn gwasanaethau fferyllol fel y'i dangoswyd drwy ei ymchwiliadau blaenorol i'r pwnc hwn. Mae'n dda gennyf allu **derbyn** y pedwar argymhelliad sy'n gysylltiedig â'r rhan hon o'r Bil. Mewn perthynas ag **Argymhelliad 11**, bydd rheoliadau a wneir o dan y Bil yn cynnwys y gofynion sylfaenol manwl ar gyfer gwybodaeth y mae'n rhaid i fyrddau iechyd ei chynnwys yn eu hasesiadau o anghenion fferyllol. Caiff canllawiau eu paratoi hefyd i helpu byrddau iechyd i ymgymryd ag asesiadau o anghenion fferyllol, a fydd yn cynnwys dogfen dempled ac enghreifftiau o arfer gorau o ran cynnal asesiadau.

Rwyf wedi nodi pryderon rhai tystion, gan gynnwys BMA Cymru a GPC Cymru, ynglŷn ag effeithiau posibl y newidiadau ar feddygon fferyllol mewn ardaloedd gwledig. Gallaf gadarnhau y byddaf yn disgwyl i fyrddau iechyd ystyried effaith asesiadau o anghenion fferyllol ar feddygon teulu yn llawn. Bydd rheoliadau a wneir o dan y Bil yn cynnwys manylion y gwasanaethau y dylai byrddau iechyd eu hystyried wrth ddatblygu eu hasesiadau o anghenion fferyllol. Bydd hyn yn cynnwys y gwasanaethau a ddarperir gan feddygon fferyllol, ac felly'n cyflawni **Argymhelliad 12**. Er mwyn rhoi sicrwydd pellach, ac

fel yr wyf eisoes wedi hysbysu'r Pwyllgor, rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd GPC Cymru i gadarnhau fy mwriad o sicrhau y bydd GPC Cymru yn cyfrannu at y manylion ynglŷn â sut y caiff asesiadau o anghenion fferyllol eu cynnal yng Nghymru. Hefyd, o dan y rheoliadau cyfredol, wrth benderfynu ar gais i ddarparu gwasanaethau fferyllol mewn ardaloedd gwledig, mae'n ofynnol i fwrdd iechyd ystyried a fydd derbyn y cais yn effeithio ar ddarpariaeth briodol o wasanaethau meddygol cyffredinol yn ei ardal. Y bwriad yw, yn y dyfodol, wrth i reoliadau ddarparu ar gyfer penderfynu ar geisiadau yn erbyn asesiadau o anghenion fferyllol, y bydd darpariaeth debyg yn cael ei gwneud er mwyn sicrhau nad effeithir ar wasanaethau meddygol cyffredinol.

Gan droi ar **Argymhelliad 13**, er i'r weithdrefn ar gyfer adleoli fferyllfa gael ei symleiddio yn y rheoliadau fferyllol a osodwyd yn 2013, rwy'n fodlon cytuno, fel rhan o'r ymgynghoriad ynglŷn â rheoliadau a wneir o dan y Bil, yr ystyrir a oes modd symleiddio'r weithdrefn ymhellach a sut. Er nad wyf yn argyhoeddedig ei bod yn briodol nac yn angenrheidiol rhagnodi terfynau amser ar gyfer ymdrin â cheisiadau mewn rheoliadau, derbyniaf y gallai fod yn fuddiol pe bai canllawiau o dan y Bil yn amlinellu disgwyliadau o ran hyn. Yn unol â hynny, caiff terfynau amser dangosol ac enghreifftiau o arfer gorau o ran ymdrin â cheisiadau eu cynnwys yn y canllawiau a gyhoeddir ar y cyd â'r newidiadau i reoli mynediad o ganlyniad i gyflwyno asesiad o anghenion fferyllol. Hefyd, bydd asesiad o anghenion fferyllol yn cynnig sail fwy gwrthrychol dros wneud penderfyniadau ac yn lleihau nifer yr achosion o anghydfod ynglŷn â cheisiadau, a ddylai gael effaith gadarnhaol o ran ymdrin â cheisiadau yn gynt yn y dyfodol,.

Rwyf wedi ystyried yn fanwl bryderon Comisiynydd y Gymraeg fel y cyfeirir atynt yn **Argymhelliad 14**, ac mae'n dda gennyf **dderbyn** yr argymhelliad hwn drwy ymhelaethu ar fy safbwynt ar y materion hyn. Prif ddiben y darpariaethau yn y Bil yw sicrhau gwasanaethau fferyllol sy'n diwallu anghenion poblogaethau lleol, a derbyniaf y bydd gwasanaethau Cymraeg yn rhan o hyn. Wrth baratoi eu hasesiadau o anghenion fferyllol, bydd angen i fyrddau iechyd ystyried unrhyw ffactorau perthnasol:- gan gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg, y gwasanaethau fferyllol sydd ar gael yn Gymraeg gan y fferyllfeydd presennol, a'r graddau y mae argaeledd gwasanaethau fferyllol yn Gymraeg yn cyfrannu at ddigonolrwydd neu annigonolrwydd mynediad i wasanaethau fferyllol. Pan fydd asesiadau o'r fath yn nodi bod y gwasanaethau fferyllol sydd ar gael i gymuned yn annigonol am nad ydynt ar gael yn Gymraeg, bydd angen i fwrdd iechyd ystyried hyn ochr yn ochr ag anghenion fferyllol eraill nas diwellir wrth gynllunio gwasanaethau fferyllol. Er mwyn braenaru'r tir ar gyfer asesiadau o anghenion fferyllol yn y dyfodol, yn ddiweddar cytunais â Fferylliaeth Gymunedol Cymru y bydd yn cynnal arolwg o'r defnydd o'r Gymraeg mewn fferyllfeydd cymunedol. Bydd yr arolwg yn ein helpu i ddeall pa mor aml ac o dan ba amgylchiadau y defnyddir y Gymraeg gan fferyllwyr a staff eraill mewn fferyllfeydd ar hyn o bryd, a'r dulliau a ddefnyddir gan fferyllfeydd i hyrwyddo argaeledd gwasanaethau Cymraeg. Bydd hyn yn cynnig llinell sylfaen ddefnyddiol ar gyfer mesur cynnydd o ran hyrwyddo mynediad i wasanaethau fferyllol Cymraeg.

Darparu toiledau

Mae'n dda gennyf gadarnhau fy mod yn bwriadu ymateb yn gadarnhaol i bob un o'r pedwar argymhelliad ynglŷn â Rhan 6 o'r Bil. Croesawaf y ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod y cydbwysedd a geir yn y Bil drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau lleol ynglŷn â thoiledau, ond heb osod dyletswydd benodol i weithredu a fyddai'n gosod beichiau ariannol sylweddol ar awdurdodau. Er fy mod yn dal i

gredu bod y Bil yn sicrhau'r cydbwysedd priodol, rwyf hefyd wedi nodi'r pryderon gwirioneddol gan rai tystion ynglŷn â gweithredu'r strategaethau lleol. Cytunaf hefyd â chasgliad y Pwyllgor y bydd monitro'r strategaethau'n briodol yn hollbwysig o ran asesu a ydynt wedi sicrhau gwell mynediad i doiledau cyhoeddus ledled Cymru. Rwyf wedi myfyrio ar **Argymhelliad 15** ac wedi dod i'r casgliad bod cyfle i atgyfnerthu atebolrwydd lleol y strategaethau ymhellach. **Derbyniaf** yr argymhelliad hwn ac rwyf wedi cyflwyno gwelliant i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad cynnydd yn gyfnodol a fydd yn manylu ar y ffordd y caiff anghenion cymunedau o ran toiledau cyhoeddus eu diwallu.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd y materion y cyfeirir atynt yn **Argymhelliad 16** o ran dosbarthiad priodol cyfleusterau a'r angen am i gyfleusterau fod wedi'u lleoli'n gyfleus i drigolion lleol a'r rhai sy'n teithio drwy ardal awdurdod lleol. Mae'r Bil yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn â'r materion y dylent eu hystyried wrth baratoi, adolygu neu gyhoeddi strategaeth leol ynglŷn â thoiledau, ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ystyried unrhyw ganllawiau o'r fath. Rwyf wedi cryfhau'r elfen hon o'r Bil drwy gyflwyno gwelliant er mwyn *ei gwneud yn ofynnol* i Weinidogion Cymru roi canllawiau o'r fath. Bydd y canllawiau hyn yn cwmpasu'r materion penodol y cyfeirir atynt yn argymhelliad y Pwyllgor.

Credaf o hyd mai awdurdodau lleol, drwy eu perthynas â'u poblogaethau lleol, ddylai baratoi ac adolygu eu strategaethau lleol eu hunain ynglŷn â thoiledau. **Derbyniaf egwyddor Argymhelliad 17**, ond rwy'n dal i gredu mai atebolrwydd lleol am fonitro strategaethau ynglŷn â thoiledau sydd fwyaf priodol. Fodd bynnag, er mwyn adlewyrchu ysbryd argymhelliad y Pwyllgor, rwyf wedi cyflwyno gwelliant a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r canllawiau a roddir i awdurdodau lleol gwmpasu darparu cyfleusterau toiled ar gefnffyrdd a phrif goridorau trafnidiaeth eraill. Bwriadaf hefyd gynnwys darpariaeth toiledau mewn safleoedd cenedlaethol, megis safleoedd i ymwelwyr, yn y canllawiau, er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ddarpariaeth toiledau. Hyderaf y bydd y cam gweithredu hwn yn bodloni'r Pwyllgor.

Derbyniaf Argymhelliad 18 ac rwyf wedi mynd i'r afael â'r mater hwn drwy gyflwyno gwelliannau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'n glir yr angen am strategaeth leol ynglŷn â thoiledau a fydd yn cynnwys asesiad o hygyrchedd toiledau mewn adeiladau a ariennir yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy arian cyhoeddus, a'r angen i hyrwyddo'r cyfleusterau sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd. Mae'r Bil eisoes yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau a roddir.

Materion nas cwmpesir yn y Bil

Yn ystod proses graffu Cyfnod 1 telais sylw arbennig i'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor ynglŷn â'r graddau y mae'r Bil yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru ar gyfer gwella iechyd y cyhoedd. Fel yr amlinellais yn y Pwyllgor, credaf fod y Bil yn cymryd camau deddfwriaethol ymarferol pwysig i wella a diogelu iechyd y boblogaeth, mewn sawl maes ar wahân o bolisi iechyd y cyhoedd. Mae nifer o faterion iechyd y cyhoedd ychwanegol yr wyf yr un mor ymrwymedig i weithredu arnynt mewn amrywiol ffyrdd y tu hwnt i'r Bil penodol hwn, boed hynny drwy wasanaethau iechyd y cyhoedd, ymgyrchoedd, pwysu am weithredu ar lefel y DU, neu drwy fathau eraill o weithredu. Rwyf yn dal yn ymrwymedig i fynd ar drywydd materion o'r fath yn y meysydd pwysig y cyfeiriwyd atynt yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor, gan gynnwys gordewdra, gweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl.

O ran ychwanegiadau posibl penodol at y Bil nodaf mai'r mater a godwyd amlaf wrth i'r Pwyllgor ystyried y Bil oedd Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd. Dilynais dystiolaeth tystion arbenigol o sefydliadau megis BMA Cymru ar y mater hwn gyda diddordeb mawr. Rwyf wedi nodi fy nghefnogaeth i Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn gyson fel dull pwysig o sicrhau y caiff iechyd ei ystyried mewn amrywiaeth o weithgareddau, er mwyn sicrhau'r manteision posibl mwyaf i iechyd, a helpu i ddileu neu liniaru effeithiau negyddol posibl. Rwyf yn llwyr gefnogi'r defnydd o asesiadau o'r effaith ar iechyd ac yn ei annog lle y bo hynny'n briodol ac yn gymesur.

O ran deddfwriaeth yn benodol, at ei gilydd, credaf o hyd y bydd y fframwaith deddfwriaethol presennol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y'i pasiwyd gan y Cynulliad y llynedd, yn cyfrannu at sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cynnal asesiadau o iechyd wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'u holl swyddogaethau. Yn bwysig ddigon, mae hyn yn helpu i gyflawni dull gweithredu 'Iechyd ym mhob Polisi', ac yn hyrwyddo'r defnydd priodol o asesiadau o'r effaith ar iechyd. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn ystyriol o safbwyntiau rhai rhanddeiliaid a nododd y gellid cymryd camau pellach i wella'r defnydd penodol o asesiadau o'r effaith ar iechyd, a byddaf yn myfyrio ymhellach ar gasgliadau'r Pwyllgor ar y mater hwn.

Tybaco a chynhyrchion nicotin (Rhan 2 o'r Bil)

Mae Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys nifer o fesurau pwysig gyda'r nod o ddiogelu poblogaeth Cymru ymhellach, yn enwedig plant a phobl ifanc, rhag dibyniaeth ar dybaco a nicotin. Felly mae'n rhan bwysig o'r Bil, a gafodd gryn sylw yn ystod Cyfnod 1. Er na chynhwysai adroddiad y Pwyllgor unrhyw argymhellion penodol ynglŷn â Rhan 2 o'r Bil, rwyf wedi ystyried yn ofalus y sylwadau a wnaed yn yr adroddiad, ac yn crynhoi fy ymateb isod.

Croesawaf gefnogaeth gyffredinol y Pwyllgor, yn ogystal â chefnogaeth mwyaf amlwg o randdeiliaid, i'r darpariaethau i gyflwyno **cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin**. Caf fy nghalonogi'n arbennig wrth nodi barn y Pwyllgor y dylai'r gofrestr fod yr un mor gymwys i fanwerthwyr dyfeisiau mewnanadlu nicotin (megis e-sigaréts) ag i'r rhai sy'n gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin eraill. Caf fy nghalonogi hefyd gan gasgliad y Pwyllgor y gallai'r cyfleoedd a gyflwynir gan y gofrestr gael effeithiau cadarnhaol ar ysmegu dan oed. Hefyd, rhannaf gasgliadau'r Pwyllgor y bydd y gofrestr yn helpu i wella'r gwaith o orfodi deddfwriaeth sy'n berthnasol i dybaco a chynhyrchion nicotin, bod y costau y bydd busnesau yn mynd iddynt yn rhesymol ac yn gymesur, a bod y darpariaethau sy'n caniatáu ar gyfer troseddau ychwanegol er mwyn cyfrannu at **Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad** i'w croesawu. Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei sylwadau ynglŷn â'r cynnig hwn a byddaf yn parhau i fyfyrio ar fanylion y rhain wrth i'r Bil fynd ar ei hynt.

Yn yr un modd, mae'n dda gennyf nodi casgliadau'r Pwyllgor ynglŷn â'r drosedd o **roi tybaco neu gynhyrchion nicotin i berson o dan 18 oed gan wybod hynny**. Rhannaf gasgliad y Pwyllgor bod hwn yn gam ychwanegol pwysig o ran atal pobl ifanc rhag cael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin.

Yn olaf, nodaf yr ystyriaeth helaeth a roddwyd gan y Pwyllgor i'r darpariaethau yn y Bil i **gyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin (megis e-sigaréts) mewn mannau cyhoeddus caeedig a gweithleoedd**, a bod y Pwyllgor wedi methu â chael

consensws ar y darpariaethau hyn. Er na allai'r Pwyllgor ddarparu argymhellion penodol ynglŷn â'r mater hwn, serch hynny rwyf wedi ystyried y gwahanol safbwyntiau a gyflwynwyd yn adroddiad y Pwyllgor. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am roi ystyriaeth lawn i nifer o faterion sy'n elfennau pwysig o'r ddadl gyffredinol ynglŷn â manteision a risgiau cymharol e-sigaréts i iechyd y cyhoedd.

Rwyf bob amser wedi bod yn glir o ran cydnabod bod y dystiolaeth ynglŷn â'r defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig yn dal i gael ei herio. Fel y nodais yn ystod y ddadl ar egwyddorion cyffredinol ar 8 Rhagfyr, o dan amgylchiadau o'r fath lle mae risg gredadwy o niwed, fel y'i cyflwynwyd gan nifer o sefydliadau iechyd arbenigol, yna cymhwyso'r egwyddor ragofalus yw'r peth mwyaf priodol i'w wneud, yn hytrach na bod yn barod i wneud dim gan obeithio na fydd dim niwed yn digwydd o bosibl. Credaf o hyd fod y Bil fel y'i cyflwynwyd yn sicrhau cydbwysedd priodol drwy ddarparu'r dull symlaf, cliriaf a mwyaf cymesur o atal y niwed posibl a allai ddeilio o dwf yn y defnydd o e-sigaréts, tra'n gwneud dim i ymyrryd â'u defnydd o ran lleihau niwed.

Fodd bynnag, fel y nodais ar 8 Rhagfyr, rwyf wedi myfyrio'n ddwys ar yr adrannau o adroddiad y Pwyllgor a gyflwynodd ddull gweithredu a fyddai'n cyfyngu'r mannau lle y byddai'r defnydd o e-sigarét yn cael ei wahardd i'r rhai lle byddai'r risg o ail-normaleiddio a risg bosibl i blant ar ei mwyaf.

Byddai'r dull gweithredu hwn yn ailffocysu'r Bil yn y ffordd y dadleuodd rhai aelodau o'r Pwyllgor o'i phlaid ac yn gwahaniaethu'n gliriach rhwng y cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts a'r gofynion di-fwg cyffredinol. Yn bwysig ddigon, byddai'r dull gweithredu hwn hefyd yn cadw prif ddiben y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag e-sigaréts, sef atal ail-normaleiddio ymddygiad ysmegu i'n plant a'n pobl ifanc.

Felly, byddaf yn cyflwyno cyfres o welliannau yn ystod Cyfnodau 2 a 3 a fydd yn ceisio diffinio'n fanylach y mannau hynny lle y câi'r defnydd o e-sigarét ei wahardd yn y dyfodol. Yng Nghyfnod 2 rwyf wedi cyflwyno gwelliannau sy'n cwmpasu sefydliadau addysgol ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed, mannau lle y gweinir bwyd, trafnidiaeth gyhoeddus ac ysbytai.

Edrychaf ymlaen at drafodaethau adeiladol pellach â'r Pwyllgor ar y mater hwn wrth i'r Bil fynd drwy weddill y broses graffu, er mwyn ei gwneud yn bosibl i fanteision lu'r Bil ar gyfer poblogaeth Cymru gael eu gwireddu.



Ein cyf/Our ref: MA-P-MD-0289/16

David Rees AM
Chair
Health and Social Care Committee
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

21 January 2016

Dear David

I write in response to your request for additional information at the Committee session on 14 January 2016.

1. An outline of how the £200 million additional to support core NHS delivery has been distributed;

As requested, I attach the letter that was issued to Health Boards at Annex 1. For clarity, a budget cannot be allocated until the budget is approved so the physical allocation of resources will take place in 2016/17. In line with previous Committee recommendations, we try to provide as much information as possible about the resources available and how they will be allocated through the issue of an allocation letter in December of each year i.e. around the draft budget time, and then follow that up with further information as I stated in the Committee.

The allocation letter (which is issued in the form of a Welsh Health Circular) in December is very detailed. It did not allocate the resources, but in paragraph 13 it set out that Health Boards **should plan** that the £200m would be allocated on the agreed population basis.

This would result in the following allocations that will be well known to health boards:

Distribution of Additional £200 million	£m
Abertawe Bro Morgannwg	35.815
Aneurin Bevan	38.264
Betsi Cadwaladr	42.515
Cardiff and Vale	28.789
Cwm Taf	22.225
Hywel Dda	24.255
Powys	8.137
Total	200.000

We have confirmed the above, along with other intentions in discussions with NHS chairs, CEOs and directors of finance since the issue of the letter. Information will be refined further as decisions are made covering the other funds included in the draft budget and we will be updating the original allocation letter via other planning letters.

A final allocation letter is planned to be issued in March following the final budget approval, before the new financial year and final submission of health board plans.

2. Additional information on the figures outlined in the WAO report *Supporting the Independence of Older People: Are Councils Doing Enough?* (Oct 2015)

I am grateful for the additional clarification of this request that has been included in correspondence of 19 January. I will include the detail requested in my later response.

3. Provide a breakdown of the planned capital spending for 2016-17 including:
 - details of discretionary capital allocations to local health boards;
 - details of costs of 2016-17 schemes which are already being funded;
 - details of new capital allocations for 2016-17.

The discretionary capital allocations to local health boards are:

2016-17 Discretionary Allocations	£m
<i>NHS organisation</i>	
Aneurin Bevan	7.209
Abertawe Bro Morgannwg	9.745
Betsi Cadwaladr	9.614
Cardiff and Vale	9.914
Cwm Taf	3.496
Hywel Dda	4.947
Powys	0.954
Total	45.879

In terms of funding for approved schemes, these are as follows:

2016-17 Already Approved Schemes	£m
Emergency Department Management System	1.129
Morrison Outpatients	2.000
Morrison Clinical & Diabetic Accommodation	2.200
Morrison Cardiac Centre	1.800
Morrison Renal	5.338
Ysbyty Glan Clwyd Redevelopment	4.037
Twywn Redevelopment	0.070
SuRNICC Enabling Works	0.132
Patient Administration System	2.218
JAG Accreditation Bangor and Glan Clwyd	0.152
Blaenau Ffestiniog Resource Centre	3.501
Adult Acute Mental Health Llandough	0.961
Children's Hospital	1.881
UHW Neonatal	4.192
Cardiff Royal Infirmary Substance Misuse	0.300
Bronglais Redevelopment	1.805
Prince Phillip Hospital Unscheduled Care	0.434
Laboratory Information System	0.020
Intelligent Audit Provision Tool	0.016
Public Health Wales Accommodation Strategy	1.150
Transforming Cancer Services Programme	2.164
Linear Accelerator Replacement Velindre	0.595
All Wales Blood Service	0.365
Ambulance Planning, Resourcing and Dispatch System	0.224
St David's Hospice	2.182
Cylch Caron Business Case Fees	0.136
Total	39.002

With regard to new capital allocations for 2016-17, as I indicated last week at Committee, I have earmarked funding for a number of key investments. This includes supporting our national programmes, for example, for developments in diagnostics and genomics. It also includes specific schemes such as a new community hospital at Cardigan, the Cylch Caron Project in Tregaron, a new primary and community resource centre at Flint, the redevelopment of Llandrindod Wells Hospital and the Specialist Critical Care Centre in Llanfrechfa. Discussions are on-going regarding further opportunities and priorities, and details of these will be shared with the Committee once these are concluded.

Best wishes,

Mark

Mark Drakeford AC / AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services
Tudalen y pecyn 45